

CYFARFOD	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
DYDDIAD	29 Medi 2026
TEITL	Cyfrifon Terfynol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026 a'r Archwiliad perthnasol
PWRPAS	Cyflwyno – • Datganiad o'r Cyfrifon yn dilyn archwiliad; • Datganiad Llywodraethu Blynnyddol Cyngor Gwynedd 2025/26; • Adroddiad 'ISA260' Archwilio Cymru; • Llythyr Sylwadau (Atodiad 4).
ARGYMHELLIAD	Ystyried a chymeradwyo'r wybodaeth cyn awdurdodi'r Cadeirydd i ardystio'r llythyr sylwadau a'r datganiad o gyfrifoldebau am y datganiadau o'r cyfrifon
AWDUR	Dewi Aeron Morgan, Pennaeth Cyllid

1. CYFRIFON 2025/26

Llwyddodd y Cyngor i gwblhau'r Datganiad o'r Cyfrifon ar gyfer 2025/26 a'i ryddhau i Archwilio Cymru ar 30 Mehefin 2026. Cyflwynwyd y Datganiad o Gyfrifon 2025/26 (amodol ar archwiliad) i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 9 Gorffennaf 2026, pryd bu craffu priodol.

Mae'r cyfrifon terfynol yn dilyn archwiliad yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 29 Medi 2026.

2. ARCHWILIAD GAN ARCHWILIO CYMRU AR RAN ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU

Nodwyd yng nghyfarfod Gorffennaf fod y cyfrifon hyn yn destun archwiliad gan Archwilio Cymru, a chyflwynir yma adroddiad 'ISA260' gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn manylu ar eu prif ddarganfyddiadau.

3. DATGANIADAU ARIANNOL A'R DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL YN DILYN ARCHWILIAD AM 2025/26

Cyflwynir yma y fersiwn derfynol (yn dilyn archwiliad) o'r Datganiad o'r Cyfrifon a'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol am 2025/26. Mae'r prif newidiadau ers y fersiwn cyn archwiliad wedi'u hamlinellu yn Atodiad 2 o adroddiad 'ISA260' Archwilio Cymru.

4. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried a chymeradwyo'r –

- Datganiad o'r Cyfrifon 2025/26 (yn dilyn archwiliad)
- Datganiad Llywodraethu Blynnyddol Cyngor Gwynedd ar gyfer 2025/26
- Adroddiad 'ISA260' gan Archwilio Cymru ar gyfer Cyngor Gwynedd

5. LLYTHYR CYNRYCHIOLAETH

Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ymofyn i'r person sy'n llywyddu'r cyfarfod, ynghyd â'r Pennaeth Cyllid, ardystio'r Llythyr Cynrychiolaeth, yn electronig. (Atodiad 4 i adroddiad Archwilio Cymru) wedi i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gymeradwyo'r uchod.

6. TYSTYSGRIF YR ARCHWILYDD PENODEDIG

Bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru (Catherine Mealing-Jones) yn cyhoeddi'r tystysgrif ar y cyfrifon wedi iddo dderbyn y Llythyr Cynrychiolaeth wedi'i ardystio gan y person sy'n llywyddu'r cyfarfod a'r Pennaeth Cyllid.